**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mark Isherwood AS
Aelod Rhanbarthol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Mark.Isherwood@senedd.cymru

19 Tachwedd 2024

Annwyl Mark,

Ymhellach i'ch cwestiynau yn y Senedd yr wythnos diwethaf, ymrwymais i ysgrifennu atoch ynglŷn â phrosiect Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli gofal cymdeithasol ar gyfer plant anabl yn Lloegr.

Nid yw'r Llywodraeth yn trafod y prosiect hwn â Chomisiwn y Gyfraith ar hyn o bryd. Cafodd y system ar gyfer asesu, pennu cymhwystra a chynllunio gofal ei hadolygu o'r bôn i'r brig ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, cyn ei hail-lunio ar ffurf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gychwyn ei gweithredu o fis Ebrill 2016. Dangosodd y gwerthusiad diweddar o'r Ddeddf yr adroddwyd arno ym mis Mawrth 2023 fod darpariaethau'r ddeddfwriaeth yn addas i'w diben; o ganlyniad, nid ydym o'r farn y byddai newid deddfwriaethol yn gyfraniad defnyddiol at wella gwasanaethau. Serch hynny rydym mewn cyswllt rheolaidd â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl anabl ac yn ystyried gwelliannau pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu helaeth a pharhaus drwy'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y tu hwnt i hynny rydym yn parhau i drafod â Chomisiwn y Gyfraith y prosiectau sydd ar y gweill ganddynt - y rhai y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cyfeirio atynt ac yn ehangach, y prosiectau yn eu rhaglen waith. Mae Comisiwn y Gyfraith wrthi’n ystyried prosiectau posibl i’w cynnwys yn eu rhaglen nesaf, sy’n golygu gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i ddatblygu’r materion hyn.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery